



*ent***CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar
Dydd Iau, 29ain Ebrill, 2021 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a
Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 18)

3. AMLOSGIADAU UNIONGYRCHOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried canlyniad y prosiect peilot i gynnig amlosgiadau uniongyrchol yn Rhondda Cynon Taf a chymeradwyo cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn barhaol.

(Tudalennau 19 - 24)

4. THEATRAU RHCT: CYNNIG NADOLIG 2021

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned, sy'n cyflwyno i'r Cabinet gynnig arfaethedig Nadolig 2021 Theatrau RhCT, gan ystyried ansicrwydd parhaus i'r sector ac ailagor theatrau yn ystod pandemig Covid-19.

(Tudalennau 25 - 32)

5. HWB TRAFNIDIAETH Y PORTH: GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i arfer pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol mewn perthynas â thir ger safle Hwb Trafnidiaeth y Porth at y diben o greu llwybr mynediad diogel i'r cyfleuster newydd.

(Tudalennau 33 - 44)

6. RHONDDA CYNON TAF: CYNNIG GRANT TAI CYMDEITHASOL 2021/2022

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi gwybod i aelodau'r Cabinet am y cynnig Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/2022 a'r effaith gadarnhaol bosibl y bydd y grant hwn yn ei chael o ran diwallu anghenion tai a chefnogi twf economaidd ar draws Rhondda Cynon Taf (RhCT).

(Tudalennau 45 - 52)

7. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR: BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n nodi'r sefyllfa o ran adnoddau unwaith-ac-am-byth sydd ar gael o ganlyniad i ddyfarnu cyllid allanol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn ystod mis Mawrth 2021, ar ôl i'r Cyngor llawn gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar 10 Mawrth 2021. Cynigir dyrannu cyllid pellach o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith seilwaith) i ategu'r cyllid ychwanegol gan LIC. Dyma gyfle i'r Cyngor fuddsoddi'n bellach yn ei flaenoriaethau, a hynny yn unol â'i Gynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020–2024.

(Tudalennau 53 - 58)

8. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

9. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n nodi datganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

(Tudalennau 59 - 74)

10. CAFFAEL TIR I'R GOGLEDD ORLLEWIN O HARRIET STREET, TRECYNON, SEF HEN FFATRI MAYHEW CHICKEN, TRECYNON, ABERDÂR, RHCT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliol tir i'r gogledd orllewin o Stryd Harriet, Trecynon, sef hen safle ffatri Mayhew Chicken. Mae'r safle mewn lleoliad allweddol ger ffordd osgoi Aberdâr, ac felly bydd yn hwyluso datblygu gorsaf drenau newydd gyda chyfleuster parcio a theithio. Bydd caffael perchnogaeth rydd-ddaliol y safle strategol hwn ger llinell fwynau Aberdâr - Hirwaun yn hwyluso ailddatblygu'r tir i'w ddefnyddio yn y dyfodol i gefnogi Metro De Cymru. Bydd hyn yn sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r ardal. Mae'r tir yn cynnig y potensial i ddarparu mynediad strategol oddi ar ffordd osgoi'r A4059 gan alluogi datblygu safle parcio a theithio strategol i wasanaethu ardal eang y dyffryn uchaf a choridor yr A465, a chodi gorsaf newydd i wasanaethu trigolion a busnesau lleol yn ardal Llwydcoed/Trecynon.

(Tudalennau 75 - 80)

11. CAFFAEL TIR AC ADEILADAU YN WILLOWFORD HOUSE, HEOL RHYD-YR-HELYG, GWAELOD-Y-GARTH, FFYNNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliol tir ac adeiladau yn Willowford House, Heol Rhyd-yr-Helyg, Gwaelod-y-Garth, Ffynnon Taf, sy'n cynnwys eiddo preswyl a'r tir gerllaw, sy'n goetir yn bennaf. Mae'r safle mewn lleoliad allweddol ger Heol Rhyd-yr-Helyg er mwyn hwyluso datblygu gorsaf drenau newydd. Bydd caffael perchnogaeth rydd-ddaliol y safle strategol hwn ger Heol Rhyd-yr-Helyg yn cadw'r tir i'w ddefnyddio yn y dyfodol i gefnogi Metro De Cymru. Mae'r tir yn cynnig y potensial i godi gorsaf drenau newydd wedi'i hadleoli, i gymryd lle'r orsaf bresennol yn Nhreforest sydd wedi'i lleoli 0.71km (0.4 milltir) i'r gogledd. Bydd y cynnig trafndiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu ag Ystad Ddiwydiannol Trefforest yn cael ei wella gan gyflwyno buddion mesuradwy i Bontypridd, Ystad Ddiwydiannol Trefforest a'r ardal gyfagos.

(Tudalennau 81 - 88)

12. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella